Pam mae bioamrywiaeth yn bwysig?

Economi Lewyrchus
Mae amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin yn sylfaen i'r economi leol, a gall bywyd gwyllt roi bod i fanteision sylweddol o ran hybu ffyniant cymunedau lleol e.e. ffermio, twristiaeth, pysgota, coedwigaeth.

Thriving Economy
Carmarthenshire's natural environment underpins the local economy, and wildlife can generate significant benefits for local economies, e.g. farming, tourism, fishing, forestry.

System Iechyd Naturiol!
Mae natur yn llesol ichi: mae cerdded, beicio, garddio, ac 'awyr agored Sir Gaerfyrddin' yn llesol i iechyd ac yn ddelfrydol ar gyfer gweithgarwch a hwyl.

A Natural Health System!
Nature is good for you: walking, cycling, gardening, 'outdoor Carmarthenshire' is a prescription for good health and a place for activity and fun.

Cymunedau Iach, Gofalgar a Diogel
Mae llecynnau glas mewn cymunedau yn creu 'ymdeimlad o le', yn gwneud cymunedau yn fwy atyniadol, ac yn gallu helpu i greu lle mwy diogel i fyw ynddo.

Healthy, Caring and Safe Communities
Green space within communities creates a 'sense of place', makes communities more attractive, and can contribute to providing a safer living environment.

Cymunedau Addysgiadol a Chreadigol
Mae amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin yn 'ystafell ddosbarth awyr agored' sy'n rhoi profiad dysgu gydol oes i bawb, gan helpu i greu dyfodol cynaliadwy ac i roi ysbrydoliaeth artistig.

Learning and Creative Communities
Carmarthenshire's natural environment is an 'outdoor classroom' providing a lifelong learning experience for all, helping create a sustainable future and provide artistic inspiration.

Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire **Biodiversity** Partnership
www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Biodiversity – we can't live without it!
Why is biodiversity important?

Cynhyrchu a Diogelu
Morfeydd heli yw ein hamddiffynfeydd naturiol rhag llifogydd, ac mae ein corslwyni a'n glaswelltiroedd llaith yn sugno dŵr; mae perthi yn creu rhwystrau naturiol ac yn rhoi cysgod rhag y gwynt, a gwenyn sy'n peillio ein cnydau.

Ble y byddem ni heb fioamrywiaeth?

Produce and Protection
Coastal salt marshes are our natural flood defences, our reed beds and damp grasslands soak up water; hedges form natural barriers and wind breaks and bees pollinate our crops.

Where would we be without biodiversity?

Saltmarsh and Mudflats © S. Jones

Honey Bee © M. Newton

Cael rhagor o wybodaeth
Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, am fioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin, ac am Bartneriaeth y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, drwy gael golwg ar y gwefannau canlynol:
www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk
www.sirgar.gov.uk

Cysylltwch â Rosie Carmichael/Isabel Macho (01267 224653) i gael rhagor o wybodaeth. Mae'r daflen hon ar gael ar ffurf ffeil 'pdf' ar y gwefannau uchod. Lluniwyd y daflen ar gyfer Partneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin gyda chymorth gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

Ni allwn fyw heb fioamrywiaeth!

Where to find out more
The LBAP and lots more information on Carmarthenshire's biodiversity, the LBAP Partnership and how you can help can be found on the websites below:
www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk
www.carmarthenshire.gov.uk

Please contact Rosie Carmichael/Isabel Macho (01267 224653) for more information. This leaflet is available as a pdf on the above websites. It has been prepared for the Carmarthenshire LBAP Partnership with support from the Countryside Council for Wales.

Biodiversity – we can't live without it!

Farmland © R. Carmichael

Garden Tiger Moth © J. Baker

Water Vole © S. Freeman / WT

Ni allwn fyw heb fioamrywiaeth!

Bioamrywiaeth – holl gyfoeth bywyd

Ystyr llythrennol bioamrywiaeth yw amrywiaeth bywyd ar y ddaear. Mae'n cynnwys pob planhigyn ac anifail byw a'r ecosystemau y maent yn dibynnu arnynt. Mae bioamrywiaeth i'w gweld ymhobman o'n cwmpas, mewn gerddi, mewn parciau, ar hyd ymylon ffyrdd, mewn caeau, ar fynyddoedd, mewn afonydd ac yn y môr.

Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfoeth o fioamrywiaeth, o'r mynyddoedd a'r bryniau a'u coetiroedd deri serth yng ngogledd-ddwyrain y sir i'r amrywiaeth o gynefinoedd arfordirol ar hyd Bae Caerfyrddin. Ar ben hynny mae rhwydwaith o gynefinoedd bywyd gwyllt yn britho ein tiroedd amaeth a'n hardaloedd trefol - yn berthi, yn goetiroedd, yn ddolydd llaith, ac yn gyrsiau dŵr - sydd oll yn gyforiog o rywogaethau, ac sydd yn dylanwadu'n enfawr ar gymeriad y dirwedd a'i phrydferthwch naturiol. Yn ddiamheuaeth mae bioamrywiaeth y sir yn cyfrannu at ansawdd bywyd y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin, ac yn elfen arwyddocaol o dwristiaeth leol ac o'r diwydiannau hamdden.

Biodiversity - the variety of life

Biodiversity is literally the diversity of life on Earth. It embraces all living plants and animals and the ecosystems on which they depend. It is found all around us, in gardens, parks, roadside verges, fields, mountains, rivers and in the sea.

Carmarthenshire has a rich variety of biodiversity, from the rugged uplands and their steep oak woodlands in the north east of the county to the varied coastal habitats around Carmarthen Bay. Throughout the agricultural land and around the urban areas runs a network of wildlife habitats - hedgerows, woods, wet meadows and watercourses - all rich in species, which greatly influences the character of the landscape and its natural beauty. The biodiversity of the county contributes to the quality of life of the people who live and work in Carmarthenshire, and is a significant element in the local tourism and recreation industries.

Bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin
Biodiversity in Carmarthenshire

Knot © W. Parry

Brown Hairstreak Butterfly © M. Clark

Carum Meadow © R. Pryce

Brown Hare © M. Newton

Bluebell Wood © L. Wilberforce

Action for biodiversity in Carmarthenshire

Camau gweithredu er mwyn hybu bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin

Er mwyn helpu i warchod a gwella amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin, rydym wedi llunio Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol i'r sir. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer y rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf yn y sir. Mae naw o gynlluniau gweithredu wedi eu llunio ar gyfer y cynefinoedd yn y sir ac ar gyfer y rhywogaethau sy'n eu defnyddio:

- *Coetiroedd*
- *Ucheldiroedd*
- *Dyfroedd croyw*
- *Gwlyptiroedd*
- *Tiroedd amaeth*
- *Glaswelltiroedd a gweundiroedd yr iseldir*
- *Safleoedd tir llwyd/trefol*
- *Cynefinoedd arfordirol*
- *Cynefinoedd morol*

Action for biodiversity in Carmarthenshire

To help conserve and enhance Carmarthenshire's natural environment we have a Local Biodiversity Action Plan for the county. This includes plans for the most important species and habitats that occur here. Nine grouped action plans have been produced for the habitats in the county and species that use them:

- Woodland
- Upland habitats
- Freshwater
- Wetlands
- Farmland
- Lowland Grassland and Heathland
- Brownfield/Urban
- Coastal
- Marine

Mae mwy na 200 o'r rhywogaethau sydd dan sylw mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol wedi eu cofnodi yn Sir Gaerfyrddin – mae'r rhain yn cynnwys adar, mamaliaid, planhigion, pryfed, pysgod a ffyngau. Yn achos y rhan fwyaf o'r anifeiliaid hyn mae unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol yn cael sylw yn y cynlluniau gweithredu ar gyfer y cynefinoedd. Fodd bynnag, mae gan 17 o rywogaethau eu cynlluniau gweithredu eu hunain: ystlumod, ysgyfarnogod, llygod pengrwn y dŵr, draenogod, dyfrgwn, pathewod, gwiwerod coch, brithion y gors a brithribinau brown, ymlusgiaid ac amffibiaid, golfanod y mynydd, troellwyr mawr, cornchwiglod, tylluanod gwynion, a chwtiaid torchog lleiaf.

In total we have over 200 LBAP species recorded in Carmarthenshire – these include birds, mammals, plants, insects, fish and fungi. For the majority if action is needed this is dealt with in the habitat action plans. However 17 special species have their own action plans including: bats, brown hare, water vole, hedgehog, otter, dormouse, red squirrel, marsh fritillary and brown hairstreak butterflies, reptiles and amphibians, tree sparrow, nightjar, lapwing, barn owl and little ringed plover.

Gweithredu dros fioamrywiaeth yn Sir Gâr

Mae pob cynllun gweithredu yn cynnwys prosiectau er mwyn gwarchod y cynefin hwnnw neu'r rhywogaeth honno yn y sir. Cymerir camau er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn ***cynnal*** *ein cynefinoedd pwysig, yn gwella eu* ***cyflwr****, ac yn eu* ***hadfer*** *a'u* ***helaethu*** *ym mhle bynnag y bo modd. Gall hyn gynnwys gwaredu prysglwyni o laswelltiroedd, creu pyllau, rheoli coetiroedd, neu blannu coed.*

Each action plan will include projects aimed at safeguarding that particular habitat or species within the county. Action will be taken to try and ensure that we **maintain** our important habitats, improve their **condition**, and **restore** and **expand** them where possible. This might be removing scrub from grassland habitats, creating ponds, managing woodlands or planting trees.

Waxcap Fungi © I. Macho

Marsh Fritillary © R. Pryce

Little Ringed Plover © D. Moore

Taf Estuary © I. Macho

Prif Gynefinoedd Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Main Habitats



O ran y rhywogaethau sy'n destun cynlluniau gweithredu gennym, rydym am ***ehangu*** *eu dosbarthiad a* ***chynyddu*** *eu niferoedd. Gallai hyn gynnwys cynnal arolygon i gael gwell dealltwriaeth o'u sefyllfa bresennol, gwella eu cynefinoedd a'r dolenni cyswllt rhwng y cynefinoedd hynny, a darparu mannau iddynt gael llocheu.*

For our action plan species we want to **expand** their range and **increase** their population size. This might include carrying out surveys to gain a better understanding of their current status, improving their habitats and the links between them and providing places of shelter.

Bydd angen i nifer o unigolion a sefydliadau gydweithio os ydym am sicrhau bod y prosiectau hynny'n llwyddo - gan gynnwys perchenogion tir, asiantaethau'r llywodraeth, grwpiau gwarchod bywyd gwyllt, awdurdodau lleol, diwydiannau, a chymunedau lleol.

If these projects are to succeed, they will require a number of individuals and organisations to work together in partnership - including landowners, government agencies, wildlife conservation groups, local authorities, industry and local communities.

Gallwn ni i gyd helpu i sicrhau bod Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin yn goroesi.

We can all help ensure the survival of Carmarthenshire's biodiversity.

Mae cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwarchod a gwella bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin, ynghyd â chadw llygad barcud ar lwyddiant ein camau, yn hynod o bwysig.

Raising awareness of the importance of conserving and enhancing Carmarthenshire's biodiversity is an important objective along with monitoring progress of the success of our actions.

Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin yn cael ei lunio gan bartneriaeth o gyrff sy'n ymwneud â gwarchod bywyd gwyllt ein sir.

The Carmarthenshire LBAP is being produced by a partnership of organisations concerned with the conservation of the county's wildlife.

Hay Meadow © I. Macho

Brownfield Habitat © I. Macho

Fieldfare © M. J. Clark

Greater Horseshoe Bat © T. McOwat

Saltmarsh

Gweithio gyda'n gilydd i warchod ein bywyd gwyllt

Prosiectau yn Sir Gaerfyrddin

• Er bod ***llygod pengrwn y dŵr*** *ymhlith y mamaliaid sy'n colli tir gyflymaf ym Mhrydain, mae ganddynt gadarnle o hyd yn ardal Llanelli. Felly mae partneriaeth yn cydweithio yn ardal Llanelli er mwyn gwella'r cynefin ffosydd sy'n holl bwysig i'r anifail prin hwn, gwella mynediad i'r cyhoedd, a chynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr ardal i lygod pengrwn y dŵr.*

Projects in Carmarthenshire

• **Water voles**, one of the UK's fastest declining mammals have a stronghold in the Llanelli area. Here a partnership is working to improve the ditch habitat of this rare animal, improve public access and raise awareness of the importance of the area for water voles.

• Mae ***Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru*** *yn hybu gwarchod bioamrywiaeth y rhanbarth. Mae'n ganolbwynt i gofnodion biolegol ac yn hybu cofnodi a rhannu data biolegol, gan fod yn gysylltiedig â mentrau i feithrin sgiliau cofnodi biolegol.*

• The **West Wales Biodiversity Information Centre** promotes the conservation of biodiversity in the area. It is a focus for biological records and encourages the recording and sharing of biological data and engages in initiatives to develop biological recording skills.

• Mae gwirfoddolwyr Gwarchod Gloynnod Byw wedi bod yn cynnal arolwg pwysig yn ogystal â gwneud gwaith rheoli cynefinoedd er budd y ***brithribin brown*** *sy'n fath prin o löyn byw. Hefyd mae'r gwirfoddolwyr hyn yn cydweithio â pherchenogion tir lleol er mwyn sicrhau bod yn y sir ddigonedd o berthi iach sy'n frith o ddrain duon ifanc ac sy'n cael eu rheoli'n dda - gan fod hynny'n holl bwysig i oroesiad y brithribin brown.*

• Butterfly Conservation volunteers have been undertaking valuable survey and habitat management for the rare **brown hairstreak butterfly**. They are also working with local landowners to ensure there are healthy well-managed hedgerows with plenty of young blackthorn - vital for the butterfly's survival.

• Mae ***Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru yn*** *cydweithio ag eraill er mwyn gwarchod y mamal prin hwn yng nghoedwigoedd anghysbell canolbarth Cymru*

• The **Mid Wales Red Squirrel Project** works in partnership to help this elusive mammal in the isolated coniferous forests in mid Wales.

• Cynhelir ***seminar bioamrywiaeth i fyfyrwyr chweched dosbarth*** *yn flynyddol i gynyddu ymwybyddiaeth o rywogaethau a chynefinoedd ein gwlyptiroedd, i ddysgu am eu heffaith arnom ni ac i weld pam y maent yn bwysig inni.*

• An annual **sixth form biodiversity seminar** seeks to raise awareness about wetland species and habitats, talk about the impacts upon them and why they are important to us.

Working together to conserve our wildlife